# Modelu Sothach

## Amcanion dysgu:

Helpu plant i ddysgu y gellir ailddefnyddio deunyddiau mewn llawer o ffyrdd creadigol, i greu, chwarae a dysgu, yn hytrach na'u taflu i ffwrdd neu eu hailgylchu yn unig.



cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

Arbed ac Ailddefnyddio

## Gwybodaeth ymarferydd:

Mae ailgylchu yn ddefnyddiol ond nid dyna’r unig ateb. Mae ailgylchu yn defnyddio ynni ac adnoddau i gasglu, prosesu a chludo’r deunyddiau.

Mae’n bwysig cofio nad oes modd ailgylchu popeth; dim ond nifer cyfyngedig o weithiau y gellir ailgylchu rhai pethau cyn i’w hansawdd leihau, ac yn anffodus gall llawer o’r hyn sy’n mynd i finiau ailgylchu weithiau gael ei halogi.

Dull mwy effeithiol yw edrych yn gyntaf ar leihau, ailddefnyddio a thrwsio cymaint ag y gallwn ni; mae hyn yn helpu i leihau gwastraff, arbed adnoddau naturiol a defnyddio llai o ynni, ac mae hyn i gyd yn well i’r blaned!


## Trosolwg o’r Gweithgaredd:

Mae modelu sothach yn ffordd wych o gyflwyno syniadau fel ailddefnyddio a gofalu am bethau.

Bydd plant yn archwilio, yn bod yn greadigol, yn mynegi eu hunain ac yn cael hwyl gan ddefnyddio deunyddiau bob dydd a fyddai fel arall wedi cael eu gwastraffu neu eu hailgylchu.

Mae’n eu galluogi i wneud y canlynol:

- Archwilio a chreu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau.
- Datblygu sgiliau echddygol manwl (torri, gludo, adeiladu).
- Defnyddio dychymyg a chreadigrwydd.
- Dechrau deall ailddefnyddio deunyddiau.



## Gweithgaredd

Casglwch amrywiaeth o eitemau bob dydd fel bocsys grawnfwyd, potiau iogwrt a photeli llaeth.

Gofynnwch i'r plant beth fyddai wedi digwydd i'r rhain pe na baem wedi'u cadw. Esboniwch, yn lle eu taflu i ffwrdd, ein bod ni'n mynd i droi'r deunyddiau hyn yn rhywbeth newydd.

Gadewch i'r plant archwilio a dewis eitemau, gan ofyn iddynt beth hoffent ei wneud.

Mae'r cyfan yn ymwneud â dychymyg yma; does dim atebion cywir nac anghywir! Os yw'r plant yn cael trafferth meddwl am syniadau, gallech osod rhai lluniau ysbrydoliaeth gerllaw.

## Syniadau modelu:

- Tai bocsys
- Ceir poteli
- Anifeiliaid sothach
- Rocedi tiwbiau
- Offerynnau cerdd
- Pentref / tref / dinas fach
- Bocs sothach dirgel



Eco-Tots Cymru

## Gorffen a chysylltu â 'Lleihau ac Ailddefnyddio' -

Unwaith y bydd y plant wedi gorffen eu crefft, anogwch nhw i greu straeon, cymeriadau neu olygfeydd i gyd-fynd â'u creadigaethau.

Gofynnwch iddyn nhw pam mae cadw ac ailddefnyddio'r eitemau hyn yn well na'u taflu i ffwrdd, er enghraifft, drwy eu cadw rydym yn cael llai o wastraff ac wedi defnyddio llai o ynni.

Gyda'ch gilydd, gallech hefyd feddwl am eitemau eraill a allai gael eu gwastraffu neu eu hailgylchu y gellid eu troi'n rhywbeth newydd i bawb ei ddefnyddio yn y lleoliad!

